# Etholiadau Arweinyddiaeth yr UM 2026
# Meini Prawf Cymhwysedd

## Meini Prawf Cymhwysedd ar gyfer pob Swydd Swyddog Sabothol

I fod yn gymwys i sefyll yn yr etholiad hwn, rhaid i chi fod naill ai'n fyfyriwr presennol ym Mhrifysgol Caerdydd neu'n Swyddog Sabothol presennol (yn unol â dogfennau llywodraethu'r Undeb) ar ddiwedd yr enwebiadau. Mae rôl Swyddog Sabothol yn swydd llawn amser, a rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod wedi gorffen eu cwrs er mwyn ymgymryd â'r rôl neu fod yn barod i gymryd seibiant o'u hastudiaethau.

## Meini Prawf Cymhwysedd ar gyfer pob Swydd Swyddog Ymgyrch

I fod yn gymwys i sefyll yn yr etholiad hwn, rhaid i chi fod naill ai'n fyfyriwr presennol ym Mhrifysgol Caerdydd neu'n Swyddog Sabothol ar hyn o presennol (yn unol â dogfennau llywodraethu'r Undeb) ar ddiwedd yr enwebiadau. Mae rôl Swyddog Ymgyrch yn swydd ran-amser, ac felly rhaid i ymgeiswyr fod yn bwriadu bod yn fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd am gyfnod y swydd (yn yr achos hwn y flwyddyn academaidd lawn 2026/27).

## Gofynion Cymhwysedd Ychwanegol

| Swydd | Gofynion Cymhwysedd Ychwanegol | Proses Wirio |
|---|---|---|
| Llywydd UM | N/A | N/A |
| Is-lywydd y Gymraeg | Rhaid i'r ymgeisydd fod yn siaradwr neu'n ddysgwr Cymraeg. | Mae'r gofyniad ychwanegol hwn yn cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun, ac ni fydd unrhyw wiriadau ychwanegol yn cael eu cynnal ar gyfer y maen prawf hwn. |
| Is-lywydd Myfyrwyr Rhyngwladol | Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr tramor sy'n talu ffioedd a/neu'n fyfyriwr sydd wedi byw neu wedi ymgymryd ag addysg dramor am gyfnod sylweddol o amser. | Mae'r gofyniad ychwanegol hwn yn cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun, ac ni fydd unrhyw wiriadau ychwanegol yn cael eu cynnal ar gyfer y maen prawf hwn. |
| Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig | Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr sydd wedi astudio neu sydd wrthi'n astudio am radd ôl- | Bydd y gofyniad ychwanegol hwn yn cael |

| | | |
|---|---|---|
| | raddedig (a addysgir neu ymchwil) ym Mhrifysgol Caerdydd. Heb gynnwys Gradd Meistr integredig. | ei wirio drwy'r Cofnodion/Data Myfyrwyr. |
| Is-lywydd Cymdeithasau a Chymunedau | N/A | N/A |
| Is-lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau | Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr sy'n aelod o'r Undeb Athletau a/neu'n aelod o dîm chwaraeon sy'n gysylltiedig â'r brifysgol fel IMG. | Bydd y gofyniad ychwanegol hwn yn cael ei wirio drwy borth Aelodaeth yr Undeb (MSL) neu brawf o aelodaeth. |
| Is-lywydd Myfyrwyr Israddedig | Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr sydd â gradd israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd neu sy'n astudio am radd israddedig ar hyn o bryd. | Bydd y gofyniad ychwanegol hwn yn cael ei wirio drwy'r Cofnodion/Data Myfyrwyr. |

| **Swydd** | **Gofynion Cymhwysedd Ychwanegol** | **Proses Wirio** |
|---|---|---|
| Swyddog Hygyrchedd | N/A | N/A |
| Swyddog Gwrth-hiliaeth | N/A | N/A |
| Swyddog Myfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio | Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr sy'n hunaniaethu fel rhywun sydd wedi ymddieithrio. Diffinnir myfyriwr sydd wedi ymddieithrio fel myfyriwr sydd heb gyswllt â'i rieni a/neu deulu. | Mae'r gofyniad ychwanegol hwn yn cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun, ac ni fydd unrhyw wiriadau ychwanegol yn cael eu cynnal ar gyfer y maen prawf hwn. |
| Swyddog Moesegol ac Amgylcheddol | N/A | N/A |
| Swyddog Myfyrwyr Parc y Mynydd Bychan | Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr y mae ei gwrs yn cael ei addysgu ar gampws Parc y Mynydd Bychan. | Wedi'i wirio drwy Gofnodion/Data Myfyrwyr |
| Swyddog LHDT+ | Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr sy'n hunaniaethu fel aelod o'r Gymuned LHDT+. | Mae'r gofyniad ychwanegol hwn yn cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun, ac ni fydd unrhyw wiriadau ychwanegol yn cael eu cynnal ar gyfer y maen prawf hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| Swyddog LHDT+ (Lle wedi'i gadw ar gyfer myfyriwr traws) | Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr sy'n hunaniaethu fel person traws. | Mae'r gofyniad ychwanegol hwn yn cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun, ac ni fydd unrhyw wiriadau ychwanegol yn cael eu cynnal ar gyfer y maen prawf hwn. |
| Swyddog Myfyrwyr Hŷn | Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr a oedd naill ai'n 21 oed neu'n hŷn ar ddechrau eu gradd Israddedig neu'n 25 oed neu'n hŷn ar ddechrau eu gradd Ôl-raddedig. | Wedi'i wirio drwy Gofnodion/Data Myfyrwyr |
| Swyddog Iechyd Meddwl | N/A | N/A |
| Swyddog Myfyrwyr sy'n Rhieni a Gofalwyr | Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr sydd â chyfrifoldebau rhiant neu ofalu. | Mae'r gofyniad ychwanegol hwn yn cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun, ac ni fydd unrhyw wiriadau ychwanegol yn cael eu cynnal ar gyfer y maen prawf hwn. |
| Swyddog Menywod | Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr sy'n hunaniaethu fel menyw | Mae'r gofyniad ychwanegol hwn yn cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun, ac ni fydd unrhyw wiriadau ychwanegol yn cael eu cynnal ar gyfer y maen prawf hwn. |

*O ran y meini prawf cymhwysedd, ystyrir y Swyddogion Sabothol presennol yn fyfyrwyr.